Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Newid sy'n Para i Gymru

## Manifffesto
## 2023

# Cyflwyniad

Cymorth i Ferched Cymru yw'r elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod. Rydym yn ffederasiwn o sefydliadau arbenigol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau sy'n achub bywyd i oroeswyr trais a cham-drin gan gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau ataliol arloesol mewn cymunedau lleol.

Rydym wedi bod ar flaen y gad o ran llunio ymatebion ac arferion cymunedol cydgysylltiedig yng Nghymru ers cael ein sefydlu yn 1978. Gwnawn hyn drwy ymgyrchu dros newid a darparu cyngor, ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth i oroeswyr, teuluoedd a chymunedau.

Rydym ni'n darparu gwasanaethau gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, a Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym ni hefyd yn cyflenwi Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) a phrosiect Newid sy'n Para; dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau ac a arweinir gan anghenion sy'n cefnogi goroeswyr pob math o drais yn erbyn menywod, a'u plant, i feithrin gwydnwch ac arwain at annibyniaeth.

Mae ein llwyddiant yn seiliedig ar sicrhau bod profiadau ac anghenion goroeswyr yn ganolog ym mhob peth a wnawn.

Rydym ni am weld byd lle mae menywod a phlant yn gallu byw yn rhydd rhag cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod, a thrwy hynny gyflawni annibyniaeth, rhyddid a rhyddhad o ormes.

Nod ein maniffesto yw gosod trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDSV) yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf y DU. Rydym ni'n defnyddio'r term VAWDSV gan ein bod yn credu ei fod yn ymgorffori pob math o drais y mae menywod a merched yn ei wynebu ledled y DU.

# Newid sy'n Para i Gymru

1. Cefnogi Goroeswyr Mudol a dileu statws dim hawl i gyllid cyhoeddus
2. Ymagwedd system gyfan er mwyn atal VAWDASV
3. Defnydd effeithiol o'r system cyfiawnder
4. Tai Fforddiadwy a Digonol i Fenywod
5. System Fudd-daliadau sy'n gweithio i bawb, gan gynnwys goroeswyr
6. Diwygio Deddfwriaethol

# Cefnogi Goroeswyr Mudol a dileu Statws Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus

Mae statws dim hawl i gyllid cyhoeddus yn amod a orfodir ar unigolion yn sgil eu statws mewnfudo. Mae Adran 115 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn nodi na fydd gan unigolyn hawl i gyllid cyhoeddus os yw'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo. Bydd person yn 'ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo':

- Os yw wedi cael hawl i ddod i mewn i'r DU neu aros yno gyda'r amod 'dim hawl i gyllid cyhoeddus'. Gall hyn gynnwys menywod sydd wedi ymuno â'u gŵr neu bartner ar fisa priodasol neu sydd â chaniatâd cyfyngedig a roddwyd dan reolau bywyd teulu neu fywyd preifat.

- Os yw wedi cael hawl i ddod i mewn i'r DU neu aros yno ond y gallai fod cyfyngiad neu waharddiad ar hawlio cyllid cyhoeddus am gyfnod o amser. Er enghraifft, gellid atal personau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) rhag cael cyllid cyhoeddus pan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

- Os nad ydynt wedi cael hawl i ddod i mewn neu aros, megis y bobl sy'n aros yn hirach na'u fisa neu sy'n dod i mewn yn anghyfreithlon.

- Unigolion ar fisa sydd â chyfyngiad amser, megis fisa myfyriwr neu fisa gweithio.

Mae trais yn erbyn menywod yn effeithio ar fenywod mudol yn anghymesur,[1] ac mae'n gyffredin i gyflawnwyr ddefnyddio statws mewnfudo fel arf ar gyfer rheoli a gorfodi[2] sy'n golygu bod goroeswyr yn rhy ofnus i ddatgelu. Mae bod heb hawl i gyllid cyhoeddus yn golygu bod unigolion yn ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo, ac na fydd ganddynt hawl i rai cronfeydd cyhoeddus penodol. Mae goroeswyr sy'n

1 A oes ganddi hi statws?": Trais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol (Senedd Cymru)
2 Safety-Before-Status-Report-2021.pdf (domesticabusecommissioner.uk) tudale 9.

wynebu ychydig neu ddim cefnogaeth yn fwy tebygol o aros mewn perthynas afiach neu gamdriniol. Mae dim hawl i gyllid cyhoeddus yn amod a atodir i fisas sy'n atal person rhag gallu manteisio ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau a chronfeydd y wladwriaeth.

Gall hyn adael llawer o oroeswyr mewn sefyllfa fregus heb unrhyw gymorth ariannol. Yn aml mae cyflawnwyr yn gwybod yn iawn am y rhwystrau y mae goroeswyr yn eu hwynebu wrth gyrchu cyllid a chefnogaeth i'w tynnu eu hunain o'r sefyllfaoedd peryglus hyn. Gellir troi hyn yn arf gan greu cyfle pellach i gyflawnwyr fanteisio ar y diffyg cefnogaeth hwn.

Yn ogystal, mae allgludo'n arbennig o anniogel i oroeswyr, menywod a phobl LHDTQIA+. Mewn penderfyniad gan Lys Hawliau Dynol Ewrop yn 2020, eglurodd y llysoedd bod methiant gwladwriaeth i ddiogelu unigolion rhag cam-drin domestig yn torri Erthygl 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[3] Tra bo Llywodraeth y DU yn parhau i allgludo goroeswyr a'u gosod mewn mwy o berygl, mae'n parhau i dorri'r mesur diogelwch hwn. Mae polisi Rwanda Llywodraeth y DU yn benodol yn gosod goroeswyr mewn perygl pellach o gam-drin eu hawliau dynol.

### Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i wneud y canlynol:

- Dileu polisi dim hawl i gyllid cyhoeddus.
- Terfynu Partneriaeth Mudo a Datblygu Economaidd y DU a Rwanda

## Dull systemau cyfan ar gyfer atal trais yn erbyn menywod a merched

Nid oes unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn digwydd mewn seilo, maent wedi'u gwreiddio mewn diwylliannau, naratifau ac agweddau o anghydraddoldeb o ran rhywedd a gwahaniaethu, sy'n frith yn ein cymdeithas a'n sefydliadau. Mae VAWDASV yn ynysu hawliau dynol menywod a phlant ac yn eu gadael gyda thrawma sylweddol, wrth iddynt geisio ymdopi â'u cymunedau a'u bywydau. Credwn fod rhaid i bawb allu byw bywyd heb ofn a er mwyn dileu VAWDASV, ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb i herio'r strwythurau, yr ymarfer a'r normau sy'n rhoi lloches i anghydraddoldeb o ran rhywedd. Mae angen cael dull system gyfan ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) er mwyn tystio i unrhyw newid ystyrlon neu mae perygl y bydd y system yn gwneud cam â menywod a phlant unwaith eto.

3 AFFAIRE BUTURUGĂ c. ROUMANIE

Ers blynyddoedd, mae arbenigwyr wedi bod yn cyfeirio at drais yn erbyn menywod fel problem iechyd cyhoeddus fawr.[4] Mae hyn yn cydnabod croestoriad ffactorau sy'n digwydd ar lefelau cymdeithas, cymuned, perthynas ac unigol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o VAWDASV.[5] Mae cymhwyso dull iechyd cyhoeddus at VAWDASV yn golygu cyflwyno tri math o ymyrraeth atal: atal cynradd, eilaidd a thrydyddol.[6] Mae'r dull system gyfan hwn eisoes yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â VAWDSV a dylid ei roi ar waith a'i ehangu ledled y DU.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi disgrifio dull iechyd cyhoeddus ar gyfer atal trais fel "Ceisio gwella iechyd a diogelwch pob unigolyn drwy fynd i'r afael â ffactorau risg gwaelodol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn dod yn ddioddefwr wrth law rhywun sy'n cyflawni trais".[7] Mae dull iechyd cyhoeddus yn edrych ar gymdeithas fel cyfanrwydd ac yn cydnabod y canlyniadau sylweddol yn sgil VAWG i iechyd a llesiant gydol oes[8] ac yn gweithredu dull triphlyg ar gyfer atal; cynradd, eilaidd a thrydyddol. Mae'r ffocws ar waith amlasiantaethol a chydweithredol yn hanfodol oherwydd rhaid cydnabod bod gan bob sefydliad, corff, unigolyn ac awdurdod ran i'w chwarae ac y byddant yn elwa o ddileu trais a cham-drin ar sail rhywedd.

Yn ein strategaeth Bum Mlynedd Fe Godwn Ni 2019 i 2024, rydym ni'n pwysleisio'r sefydliad a grëwyd gennym i atal trais yn erbyn menywod a merched; Newid sy'n Para. Yn llywio hyn roedd ymchwil i'r systemau a'r ymyriadau ar y pryd, a gwelwyd mai ychydig yn unig o effaith tymor hir oedd ganddynt. Fe'i cwblhawyd mewn partneriaeth â Women's Aid Federation England.

Mae Newid sy'n Para[9] yn gosod goroeswyr yn y canol fel arbenigwyr ar eu profiad eu hunain ac yn ddull system gyfan ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod a merched. Mae'r dull yn sicrhau cymorth dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfder ac a gaiff ei lywio gan drawma gan ganolbwyntio ar atal, ymyrraeth, atebolrwydd y cyflawnwr ac ymadfer tymor hir, sy'n mynd y tu hwnt i ymyrraeth argyfwng tymor byr. Gall goroeswyr fod mewn cysylltiad â llawer o sefydliadau ac asiantaethau drwy gydol eu hoes, ond efallai nad ydynt bob amser yn gallu adnabod arwyddion cam-drin/trais, felly mae cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar a chyfeirio yn cael eu colli.

Mae dull iechyd cyhoeddus yn canolbwyntio ar gymdeithas gyfan, felly mae'n hanfodol fod rhwystrau gwahanol at ymgysylltu cymunedol yn cael eu hystyried.

4 https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/violence-against-women
5 Hagemann-White et al. (2010) 'Review of Research on Factors at Play in Perpetration'; https://www.humanconsultancy.com/assets/understanding-perpetration/bin/Review%20of%20Research.pdf
6 https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/A-Blueprint-for-the-Prevention-ofVAWDASV27918.pdf
7 https://www.who.int/groups/violence-prevention-alliance/approach
8 https://publichealthscotland.scot/media/17512/ending-violence-against-women-and-girls-a-public-health-approach.pdf, tudale 3
9 https://welshwomensaid.org.uk/change-that-lasts/

## Rydym yn galw ar bob plaid i wneud y canlynol:

- Sefydlu dull iechyd cyhoeddus system gyfan sy'n atal pob math o drais, yn seiliedig ar gael cymorth dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau ac a gaiff ei lywio gan drawma gan bob gwasanaeth/sefydliad.
- Cyflawni comisiynu cynaliadwy i bob gwasanaeth i sicrhau'r capasiti a'r adnoddau i hwyluso atal, gyda chydnabyddiaeth bod atal cynradd ac eilaidd yn debygol o achosi cynnydd yn y galw am wasanaethau arbenigol.
- Edrych am gyfleoedd i godi sgiliau gweithwyr proffesiynol ar draws ystod eang o sectorau i gynyddu cyfleoedd ar gyfer atal.
- Ymrwymo i ddull iechyd cyhoeddus ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n rhoi cefnogaeth arbennig i grwpiau ymyledig er mwyn dechrau mynd i'r afael â rhwystrau ychwanegol a wynebir.

# Defnydd effeithiol o'r system cyfiawnder

Mae goroeswyr cam-drin domestig yn wynebu heriau di-rif ar bob lefel o'r system cyfiawnder sifil a throseddol. O ddiffyg ymddiriedaeth wrth hysbysu awdurdodau am achosion o VAWDSV, wynebu blynyddoedd o aros am achos llys trawmatig ac wynebu'r system llysoedd teulu, mae goroeswyr yn gorfod llywio drwy rwystrau at gyfiawnder.

Disgwylir y caiff y trosolwg diweddaraf ei gyhoeddi ym mis Tachwedd, fodd bynnag y llynedd gwelwyd lleihad mewn cyhuddiadau, erlyniadau ac euogfarnau cam-drin domestig.[10] Er bod yr ail biler o'r fframwaith plismona'n nodi 'ymlid cyflawnwyr yn ddidostur',[11] yn y Crynodeb Gweithredol diweddaraf ar Fynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, dim ond 6% o'r holl droseddau a gofnodwyd a gwblhawyd gyda'r sawl oedd dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo.[12] Mae hyn hyd yn oed cyn i'r goroeswyr wynebu'r system llysoedd ei hun.

Mae'n destun pryder bod data Rape Crisis yn dangos bod y nifer o achosion o droseddau rhyw sy'n aros i fynd i Lys y Goron wedi cyrraedd record o 8,741 ym mis Gorffennaf 2023.[13] Yn ystod y cyfnod hwn o aros, mae goroeswyr yn aml yn wynebu cosbau fel gorfod byw heb eu ffôn, sy'n golygu eu bod o bosibl yn methu cysylltu â'u rhwydweithiau cymorth[14] a theimlo mai nhw yw'r rhai sy'n destun ymchwiliad.

10 https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/latest-cps-data-justice-system-still-failing-women-domestic-abuse/
11 https://www.college.police.uk/article/police-action-against-men-who-harm-women-girls#:~:text=We%20are%20going%20to%20increase,girls%20going%20about%20their%20lives.
12 Tackling Violence Against Women and Girls – Policing Performance and Insights Publication Executive Summary - March 2023
13 Breaking Point | Rape Crisis England & Wales
14 Rape victims among those to be asked to hand phones to police - BBC News

Mae goroeswyr hefyd yn wynebu gweld y cyflawnwr yn defnyddio'r system llysoedd teulu fel arf. Mae'n hanfodol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliadau llys teulu fod â dealltwriaeth glir o rôl pŵer a rheolaeth mewn cam-drin domestig a sut y gellir sianelu hyn yn aml drwy blentyn yng nghyd-destun anghydfod cyswllt. Gall achosion cyswllt plant yn aml roi goroeswyr cam-drin domestig sy'n oedolion ac yn blant mewn perygl, oherwydd gellir eu defnyddio i barhau a'r cam-drin.

Mae angen i drefniadau cyswllt sicrhau bod plant yn cael eu gwarchod a'u cadw'n ddiogel. Mae angen hyfforddiant dwys ar ymarferwyr Llys Teulu ar bob math o VAWDASV er mwyn rheoli pryderon am ddiogelwch a llesiant goroeswyr sy'n blant ac yn oedolion. Gwnaeth Deddf Cam-drin Domestig 2021 gynnydd da wrth gydnabod bod plant yn oroeswyr[15] yn eu hawl eu hunain sy'n profi effeithiau cam-drin domestig.[16] Fodd bynnag, mae'r system llys teulu'n dal i beri trawma pellach i oroeswyr sy'n oedolion ac yn blant.

Credwn yn gryf na fydd unrhyw gynigion am gyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys yn creu diwylliant o ddiogelwch ac na fydd yn gwarchod menywod a phlant rhag niwed, ac yn lle hynny mae'n creu amgylchedd o bŵer a rheolaeth bellach gan y cyflawnwr ac rydym yn anghytuno'n llwyr gyda'r cynnig hwn. Bydd cyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys yn gosod goroeswyr mewn sefyllfa anghynaladwy, hyd yn oed gyda'r eithriad a ddarperir i'r rheini sy'n gallu rhoi tystiolaeth o gam-drin domestig.

## Rydym yn galw ar bob plaid i wneud y canlynol:

- Canolbwyntio ar roi argymhellion adroddiad panel Harm ar waith ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon systematig dwys o ran y ffordd mae'r llys yn nodi ac yn ymateb i gam-drin domestig.
- Hyfforddi'r holl staff cyfiawnder troseddol i'w cynorthwyo i ddeall y mathau gwahanol o gam-drin, sut mae hyn yn edrych a sut y gall effeithio ar oroeswyr a'u plant. Rhaid i hyfforddiant ymgorffori hawliau goroeswyr a'u plant (fel 'dioddefwyr' yn eu hawl eu hunain) yn unol â'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion.
- Sicrhau bod diffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Dioddefwyr yn cael ei gymryd o ddifrif. Rhaid i'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion fynd yn bellach i sicrhau bod darpariaeth benodol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth, gwneud iawn, a sancsiynau.
- Gweithredu ar unwaith i leihau ôl-groniadau'r llysoedd a pharhau gyda Chynllun Peilot Llysoedd Pathfinder.

15 Er bod y ddeddfwriaeth yn defnyddio'r gair 'dioddefwr' rydym ni'n credu bod y gair 'goroeswr' yn fwy grymusol
16 Deddf Cam-drin Domestig 2021

# Tai fforddiadwy a digonol i oroeswyr

Mae llu o rwystrau'n wynebu goroeswyr VAWDASV wrth geisio sicrhau cartref yn yr hinsawdd bresennol. Yn dilyn pandemig Covid-19, blynyddoedd o lymder, prinder tai a bellach yr argyfwng costau byw, mae dod o hyd i gartref digonol wedi datblygu ymhell o fod yn hawl sylfaenol i bawb, ac yn her ryfeddol i'w ganfod ac i'w gynnal.

Er bod rhwystrau o ran tai yn bodoli ar draws cymdeithas, i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i fenywod sy'n ffoi rhag trais a cham-drin, ac i'r rheini sy'n awyddus i ailadeiladu eu bywyd yn dilyn y trawma hwn, caiff rhwystrau hyn eu gwaethygu ymhellach.

Yn aml mae ofni gadael cartref a byw yn rhywle sydd, neu sydd â'r potensial i fod yn anniogel hefyd yn rheswm pam fod goroeswyr yn aros mewn cartref lle mae cam-drin neu drais yn digwydd. Gwaethygodd hyn yn ystod yr argyfwng tai a chostau byw gyda'r anhawster o ddod o hyd i rywle i fyw o gwbl yn cynyddu'n gyflym. Ni ellir tanamcangyfrif y croestoriad rhwng tai a VAWDASV. Yn aml mae cam-drin yn digwydd yn y cartref, mewn lle ble dylai pawb deimlo'n fwyaf diogel.

Bydd goroeswyr cam-drin ariannol a/neu fathau eraill o gam-drin a thrais yn wynebu myrdd o rwystrau at lety addas, diogel a saff. Mae'n bosibl na chânt eu hystyried yn 'ymgeisydd dymunol' gan landlordiaid preifat oherwydd eu sefyllfa ariannol neu eu cysylltiad â chyflawnwr, mewn marchnad sydd eisoes yn hynod gystadleuol.

Mewn pecyn cymorth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, tynnodd Surviving Economic Abuse sylw at y ffaith fod 42% o landlordiaid yn gwrthod gosod eiddo i bobl ar fudd-daliadau tai.[17] Mae eiddo rhent preifat hefyd yn aml yn gofyn am brawf o enillion a blaendal. Mae llawer o resymau pam na fyddai gan oroeswr y cyllid ar gyfer hyn, oherwydd caledi ariannol, ac felly'n annhebygol o allu sicrhau eiddo rhent preifat, ac mae'r sefyllfa'n waeth fyth oherwydd prinder tai.[18]

17 [https://www.dahalliance.org.uk/media/10649/3_-wha-economic-abuse.pdf](https://www.dahalliance.org.uk/media/10649/3_-wha-economic-abuse.pdf)
18 Wales' Housing Crisis: Local Housing Allowance and the private rental market in Wales, Winter 2023 - Bevan Foundation

## Rydym yn galw ar bob plaid i wneud y canlynol:

- Ymrwymo i raglen ddigonol o adeiladu tai cymdeithasol penodol a llety dros dro.
- Rhaid i'r holl unigolion sy'n ymwneud â phrosesu hawliadau tai fod wedi'u hyfforddi mewn VAWDASV i sicrhau eu bod yn deall y mathau gwahanol o gam-drin/trais a'r llu o sefyllfaoedd ble gallai goroeswr fod yn ddigartref neu fod angen cartref newydd.
- Dylid darparu hyfforddiant penodol i sicrhau bod y rheini sy'n gweithio ym maes tai'n deall anfanteision lluosog a'r anawsterau y mae grwpiau ymyledig yn eu hwynebu, er mwyn sicrhau bod rhwystrau systematig yn cael eu chwalu.

# System fudd-daliadau sy'n gweithio i bawb, gan gynnwys goroeswyr

Mae cyrchu eu cyllid eu hunain yn gallu bod yn hanfodol er diogelwch a llesiant goroeswyr. Mae cyflawnwyr yn defnyddio rhwystrau ariannol i atal goroeswyr rhag cyflawni annibyniaeth oddi wrth y cyflawnwr a sicrhau annibyniaeth ariannol. Caiff hyn ei waethygu gan yr hinsawdd economaidd bresennol.[19]

Mae angen i sefydliadau ariannol gan gynnwys banciau a'r Adran Gwaith a Phensiynau sicrhau eu bod yn wybodus ar faterion yn gysylltiedig â VAWDSV a'r ffordd y gall goroeswyr gyflwyno eu hunain. Mae sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol yn gwybod am y rhwystrau y mae goroeswyr yn eu hwynebu'n cyfoethogi dull system gyfan sy'n darparu'r cymorth sydd ei angen iddynt.

Yn ogystal, mae angen i'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd fod yn ymwybodol o'r rhwystrau ariannol sy'n ei gwneud yn anoddach i oroeswyr adael. Mae cyfyngu ar gyllid fel y terfyn credyd treth dau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau'n gallu effeithio'n uniongyrchol ar sut mae goroeswr yn cael cymorth. Mae'r capiau hyn yn effeithio ar fenywod yn anghymesur gan fod 90% o rieni sengl yn famau[20] ac felly ddim ond yn gallu cael £13,400 yng Nghymru.[21] Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o weithio rhan amser ac yn llai tebygol o fod â chynilion. Mae'r diffyg annibyniaeth ariannol hwn yn aml yn eu rhwystro rhag gadael.[22] Mae cyfraddau'r rheini sy'n cael eu capio hefyd yn cynyddu wrth i'r argyfwng costau byw fynd yn ei flaen. Mae llawer hefyd yn anymwybodol o'r effaith mae peidio â chofrestru am Fudd-dal Plant yn ei gael ar bensiwn y wladwriaeth.[23]

19 https://www.womensaid.org.uk/the-cost-of-living/
20 3 Adran Gwaith a Phensiynau, Data Ca[ Budd-daliadau hyd at Awst 2018
21 https://www.gov.uk/government/statistics/benefit-cap-number-of-households-capped-to-may-2022/benefit-cap-number-of-households-capped-to-may-2022
22 https://wbg.org.uk/analysis/spring-budget-2022-women-and-employment/
23 https://arthurboyd.co.uk/why-you-should-still-register-for-child-benefit-even-if-you-are-a-high-earner/

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, os yw cwpl yn byw gyda'i gilydd, bydd angen iddynt hawlio ar y cyd.[24] Mae'r canllawiau ar y wefan yn gwbl anaddas ar gyfer delio gyda goroeswyr a hyd yn oed yn gwthio i wneud y trefniadau ar gyfer taliad ar wahân yn rhai dros dro. Caiff taliadau ar wahân eu cynnig ar sail achosion unigol yn unig. Mae'r gyfradd o bobl sy'n cael eu capio hefyd yn cynyddu wrth i'r argyfwng costau byw fynd yn ei flaen. Mae llawer hefyd yn anymwybodol o'r effaith y gall peidio â chofrestru ar gyfer Budd-dal Plant ei gael ar bensiwn y wladwriaeth.[25]

## Rydym yn galw ar bob plaid i wneud y canlynol:

- Gwneud taliadau Credyd Cynhwysol ar wahân yn safonol.
- Sicrhau bod pobl mewn lloches neu lety dros dro yn gallu cyrchu Credyd Cynhwysol heb oedi.
- Dileu'r terfyn credyd treth dau blentyn.
- Dileu'r cap budd-daliadau sydd ar hyn o bryd yn £13,400 i berson sengl.
- Dechrau ar raglen o hyfforddiant ar sail trawma i'r holl staff Adran Gwaith a Phensiynau sy'n delio gyda chwsmeriaid.

# Diwygio Deddfwriaethol

Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn syfrdan pan basiwyd y Bil Mudo Anghyfreithlon yn Nhŷ'r Arglwyddi eleni. Mae hyn nawr yn golygu y bydd y Bil yn cyrraedd cydsyniad brenhinol ac yn dod yn gyfraith. Bydd y Bil yn cael effaith trychinebus ar fenywod a phlant sy'n ffoi i'r DU oherwydd y risg o niwed difrifol ac erledigaeth yn eu gwlad gartref.

Mae ymgyrch 'atal y cychod bach' y llywodraeth yn methu â diogelu pobl fregus sy'n dioddef cam-fanteisio'n ddyddiol gan gangiau troseddol. Mae'n methu â chydnabod y bydd Bil yn galluogi ailadrodd y trawma sy'n digwydd i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol dan amodau o'r fath ac y bydd gwendidau unigolion yn gwaethygu.

Bydd y Bil Mudo Anghyfreithlon arfaethedig yn golygu na fydd gan fudwyr sydd heb fawr o ddewis ond croesi yn y ffordd hon unrhyw fynediad at fesurau i'w diogelu yn erbyn caethwasiaeth.

24 https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-and-couples-an-introduction/universal-credit-further-information-for-couples
25 Universal Credit and "survival sex" - Work and Pensions Commitee - House of Commons (parliament.uk)

Rydym ni'n pryderu am yr effaith y bydd y ddeddfwriaeth yn ei gael ar y menywod a'r plant niferus sy'n cael eu gorfodi i ffoi o'u gwledydd cartref.  Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y rheini sydd mewn perygl o ddioddef cam-fanteisio rhywiol a chaethwasiaeth fodern, y mae 70% o'u plith yn fenywod a merched.[26] Bydd gan fudwyr benywaidd lai fyth o opsiynau wrtyh geisio ffoi rhag trais ar sail rhywedd.

Ochr yn ochr â'r sector arbenigol hwn a goroeswyr, calonogwyd Cymorth i Ferched Cymru gan y posibilrwydd o gael Bil Dioddefwyr a'r ffordd y gallai gryfhau darpariaeth i sicrhau bod goroeswyr ar y blaen ac yn gallu ailadeiladu eu bywydau ar ôl dioddef trais a cham-drin.

Ochr yn ochr â sefydliadau sector arbenigol eraill, rydym ni hefyd yn credu bod y Bil yn methu â mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau wrth gyrchu cymorth arbenigol a chyfiawnder i oroeswyr o grwpiau ymyledig. Ni chafwyd unrhyw gyfeiriadau at ddioddefwyr sy'n fudwyr a'r rheini sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Ni fydd y Bil yn darparu'r hyn sydd ei angen ar ddioddefwyr os nad yw'n mynd i'r afael ag anghenion pob dioddefwr. Rhaid i'r Bil gynnwys gwarchodaeth i ddioddefwyr sy'n fudwyr, ochr yn ochr â chyflwyno wal dân.

Mae sefydliadau fel Gwasanaeth Hawliau Menywod America Ladin (LAWRS) yn yr ymgyrch #StepUpMigrantWomen wedi pwysleisio bod rhaid peidio â rhannu data pan fydd gan ddioddefwyr statws mewnfudo ansicr. Rydym ni'n siomedig i weld nad yw Llywodraeth y DU wedi cyflwyno wal dân o ran rhannu gwybodaeth rhwng y corff gorfodi mewnfudo a gwasanaethau statudol ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig.

Ymhellach, rydym ni'n pryderu os na fydd gan oroeswyr hawl i gyllid cyhoeddus, y bydd eu teuluoedd yn wynebu rhwystrau ychwanegol at gymorth. Deddf Plant 1989 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth o hyd sy'n darparu ar gyfer diogelwch a llesiant plant yng Nghymru. Mae adran 17 y Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddiogelu 'plant mewn angen' yn eu hardal, ond mewn sawl achos o VAWDASV lle nad oes gan oroeswyr hawl i gyllid cyhoeddus, mae eu teuluoedd yn profi triniaeth wael gan y gwasanaethau statudol, gyda'r ffocws yn aml yn cael ei osod ar eu statws mewnfudo yn hytrach na'u hanghenion cymorth.

26 The Freedom Fund, Gender inequality and modern slavery, How to break the cycle of women and girls' exploitation

## Rydym yn galw ar bob plaid i wneud y canlynol:

- Diddymu'r Bil Mudo Anghyfreithlon
- Gosod wal dân yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion i atal rhannu data trydydd parti gyda'r Swyddfa Gartref.
- Gan fod 'dim hawl i gyllid cyhoeddus' yn bodoli, ymrwymo i gyllid i ddarparu cymorth i oroeswyr sydd â'r statws hwnnw a sicrhau bod asiantaethau statudol yn cyflawni eu cyfrifoldebau i oroeswyr a'u teuluoedd.

Cymorth i Ferched Cymru

Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk


www.welshwomensaid.org.uk


Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469.


Dilynwch ni:
@welshwomensaid

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First